# Y Gronfa Radio Cymunedol

## Adroddiad diwedd blwyddyn: 2022-23

**Adroddiad**

10 Hydref 2023

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg ........................................................................................................................ 3
2. Adroddiad Diwedd Blwyddyn y Gronfa Radio Cymunedol 2022-23 ................................ 4

# 1. Trosolwg

1.1 Mae’r ddogfen hon yn adrodd ar sut y gweinyddwyd y Gronfa Radio Cymunedol (“y Gronfa”) yn 2022-23. Mae’r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant y Cyfryngau a Chwaraeon (“DCMS”) wedi rhoi'r dasg o weinyddu’r Gronfa i Ofcom. Mae DCMS yn darparu swm o arian bob blwyddyn ar gyfer y Gronfa a dyfernir grantiau i orsafoedd radio cymunedol sydd wedi’u trwyddedu gan Ofcom.

# 2. Adroddiad Diwedd Blwyddyn y Gronfa Radio Cymunedol 2022-23

2.1 Mae'r Gronfa'n bodoli i helpu trwyddedeion radio cymunedol ac i gefnogi costau craidd a ysgwyddir wrth ddarparu gwasanaethau radio cymunedol.

2.2 Ofcom sy'n gweinyddu'r Gronfa ar ran DCMS. Mae'r arian a ddyrennir i'r Gronfa yn cael ei ddosbarthu ar ffurf grantiau, yn dilyn proses ymgeisio ffurfiol.

2.3 Panel y Gronfa Radio Cymunedol ('y Panel') sy'n penderfynu ar y ceisiadau am grantiau ac yn adrodd i Fwrdd Polisi a Rheoli Ofcom.

2.4 Dyrannodd DCMS £400,000 i'r Gronfa ar gyfer y flwyddyn ariannol 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023. Roedd gorwariant bychan yn y flwyddyn flaenorol yn golygu bod £393,816 ar gael ar ddechrau'r flwyddyn. Dyrannodd DCMS £100,000 arall i'r Gronfa ar gyfer yr ail rownd o ariannu. O ganlyniad roedd £493,816 ar gael ar gyfer y flwyddyn.

2.5 Cyfarfu'r Panel ddwywaith yn ystod y flwyddyn i ystyried ceisiadau am grantiau, ym mis Gorffennaf 2022 a mis Chwefror 2023.

## Crynodeb o'r taliadau

2.6 Yn y rownd gyntaf, dyfarnwyd grantiau gwerth cyfanswm o £242,395 i 18 o orsafoedd.

2.7 Yn yr ail rownd, dyfarnwyd grantiau gwerth cyfanswm o £251,421 i 17 o orsafoedd.

2.8 Dros y ddwy rownd ariannu ystyriwyd 93 o geisiadau, a fu'n gofyn am gyfanswm o £1,611,455.

2.9 Amrywiodd grantiau yn ystod y flwyddyn o £1,500 i £24,570, gyda thaliad cyfartalog o £14,109. Dyfarnwyd cyfanswm o 35 o grantiau.

## Blaenoriaethau'r panel

2.10 Mae Ofcom yn cyhoeddi datganiad gan y Panel yn dilyn pob rownd ariannu sy'n nodi'r dyfarniadau a wnaed ac yn nodi blaenoriaethau ariannu'r Panel. Fel rhan o'r datganiad hwn, mae'r Panel hefyd yn darparu adborth cyffredinol ar y ceisiadau a dderbyniwyd er mwyn rhoi rhywfaint o gymorth i ymgeiswyr aflwyddiannus gydag unrhyw geisiadau y byddant efallai yn eu cyflwyno yn y dyfodol.

2.11 Roedd y Panel o'r farn y dylai'r grantiau a roddwyd, cyn belled ag y bo modd, gefnogi sefydlogrwydd ariannol a chynaladwyedd hirdymor gorsafoedd, ac felly roedd yn debygol o ffafrio ceisiadau a oedd yn blaenoriaethu'r meysydd hyn a/neu'n cynnig siawns o ddod yn hunangynhaliol y tu hwnt i gyfnod y grant.

2.12 Yn y ddwy rownd amlygodd y Panel fod nifer fach o orsafoedd nad oeddent wedi darllen y nodiadau arweiniad a gyhoeddir gan Ofcom, sy'n pennu'r mathau o geisiadau na ellir eu hariannu, megis costau rhent/cyfleustodau a thalu ffioedd trwydded.

2.13 Ar ôl y ddwy rownd pwysleisiodd y Panel y dylai gorsafoedd sy’n gwneud cais am ariannu ar gyfer swyddi fod yn glir ynghylch cyfrifoldebau a disgwyliadau’r rolau hynny, a thynnodd sylw at y ffaith bod ceisiadau cryfion yn aml yn cynnwys targedau mesuradwy ar gyfer eu rolau, megis incwm disgwyliedig o rolau gwerthu/cynhyrchu incwm.

2.14 Ar ôl y rownd gyntaf tynnodd y Panel sylw at y ffaith ei fod wedi ariannu rhai ceisiadau a oedd yn cynnig dulliau arloesol o gynhyrchu incwm, megis drwy farchnata digidol, ac anogodd orsafoedd eraill i ystyried dulliau arloesol yn y dyfodol.

2.15 Ar ôl yr ail rownd nododd y Panel, er bod realaeth ynghylch sefyllfa gorsaf yn bwysig, eu bod hefyd wedi mwynhau darllen ceisiadau gan orsafoedd a amlygodd eu straeon llwyddiant yn eu ceisiadau.

2.16 Yn y flwyddyn ariannol hon comisiynodd DCMS ymchwil annibynnol i adolygu effeithiolrwydd y Gronfa. Yn sgil yr adroddiad hwn, mae cydweithwyr yn Ofcom wedi cynnal trafodaethau ar ddichonoldeb gweithredu’r argymhellion gyda DCMS. Dylid nodi ein bod ni, gyda chytundeb DCMS, wedi cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch defnyddio llwyfan ar-lein (er, a bod yn realistig, mae hyn rai blynyddoedd i ffwrdd oherwydd y gyllideb) ac wedi dechrau coladu adborth ar gyfer gorsafoedd unigol, a gymeradwywyd gan y Panel yn ystod Cyfarfodydd y Panel, i'w ddosbarthu i ymgeiswyr aflwyddiannus os byddant yn gofyn am wybodaeth bellach ar ôl i'r datganiad dyfarniadau gael ei gyhoeddi.

# Monitro grantiau

2.17 Mae gan y Panel weithdrefn adrodd ar waith i wirio bod dyfarniadau grant yn cael eu gwario fel y cytunwyd. Rhoddir cytundeb grant ar waith rhwng Ofcom a phob trwyddedai y dyfernir grant iddo, ac mae hwn yn nodi telerau’r dyfarniad, gan gynnwys cyfnod gwariant. Ar ddiwedd y cyfnod gwariant grant mae'n ofynnol i ymgeiswyr llwyddiannus gwblhau adroddiad (yr 'adroddiad grant') sy'n rhoi manylion sut y gwariwyd eu grant gan y Gronfa. At hynny, gofynnir am adroddiadau grant interim hanner ffordd drwy'r cyfnod gwariant perthnasol. Diben yr adroddiadau interim yw helpu nodi unrhyw faterion posibl sy'n codi o ran gwariant y grant. Os na roddir adroddiad boddhaol, mae’n bosib y bydd y Panel yn gofyn i'r grant gael ei ad-dalu, a gall ystyried peidio â dyfarnu grant pellach i drwyddedai mewn rownd yn y dyfodol.

2.18 Os bydd trwyddedai'n peidio â dal ei drwydded ddarlledu (e.e. drwy ildio neu ddirymu) tra bod cytundeb grant yn ei le, bydd yn ofynnol i unrhyw arian grant sydd heb ei wario gael ei ad-dalu'n llawn.

2.19 Roedd pob adroddiad grant a dderbyniwyd ac a adolygwyd yn 2022/23 yn foddhaol ond mae'r broses yn mynd rhagddi. Mae Ofcom yn gwirio pob adroddiad yn ofalus ac yn ceisio eglurhad gan dderbynyddion grant yn ystod y broses adolygu pan fydd angen.

2.20 Ystyriodd y Panel nifer o geisiadau i ail-bwrpasu rhan o'r arian a dderbyniwyd, neu i ymestyn cyfnod grant gan ddilyn anawsterau wrth lenwi swyddi gwag a ariannwyd. Mae'r Panel yn ystyried pob cais o'r math hwn ar ei delerau ei hun, gan ystyried y rhesymau y tu ôl i'r dyfarniad cychwynnol wrth benderfynu a ddylid cymeradwyo ceisiadau o'r fath ai peidio.

## Y sector radio cymunedol a dyfodol y Gronfa

2.21 Mae'r sector radio cymunedol analog wedi aros yn sefydlog, ar ôl cwblhau'r rownd drwyddedu derfynol yn 2020. Mae llond llaw o orsafoedd i'w lansio o hyd, ond ar hyn o bryd mae cyfanswm o 317 o orsafoedd radio cymunedol yn darlledu ar AM neu FM. Rydym yn gweld nifer fach o wasanaethau'n cael trafferth cynhyrchu lefelau digonol o wirfoddolwyr i gynnal y lefelau o gynnwys lleol a nodir yn yr Ymrwymiadau Allweddol, sydd wedi arwain at ildio tair trwydded. Fodd bynnag, pan glywn am Drwyddedeion sy'n ystyried ildio eu trwydded, rydym yn eu hannog i ddarganfod a oes unrhyw grwpiau lleol eraill a fyddai'n ystyried ymgymryd â'r drwydded o ystyried nad ydym yn ail-hysbysebu unrhyw drwyddedau radio cymunedol analog ar hyn o bryd. Mae'r dull hwn wedi profi i fod yn llwyddiannus mewn rhai achosion.

2.22 Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2022-23, roeddem wedi derbyn 99 o geisiadau am drwyddedau Rhaglen Sain Ddigidol Gymunedol (C-DSP), sef trwyddedau radio cymunedol ar gyfer darlledu radio digidol ar amlblecsau DAB ar raddfa fach. Roedd 46 o orsafoedd C-DSP yn darlledu, ac felly maent yn gymwys i wneud cais am y gronfa. Roedd 36 arall wedi derbyn dyfarniad ac yn paratoi i lansio. Roedd yr 17 arall yn dal yn mynd drwy'r broses drwyddedu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Disgwyliwn i'r niferoedd hyn barhau i dyfu'n sylweddol dros y blynyddoedd i ddod oherwydd llwyddiant parhaus y rhaglen SSDAB.

2.23 Mae cytundeb ariannu presennol Ofcom gyda DCMS yn para tan 2024-25.

## Aelodau'r Panel

2.24 Mae'r Panel yn cynnwys tri aelod a benodir gan Fwrdd Polisi a Rheoli Ofcom. Yn 2022/23 yr aelodau hyn oedd:

- Wendy Pilmer, Cadeirydd y Panel, ac ymgynghorydd sy'n gweithio gyda darlledwyr pennaf y byd i weithredu strategaethau a rheoli newid;
- Olu Bankole, un o weithwyr Ofcom, sydd â phrofiad helaeth mewn materion cyllid ac ariannu; a
- Mark Jones, cyn-gyflogai gyda'r BBC, sydd â phrofiad helaeth mewn gohebu, cynhyrchu a rheoli radio.

2.25 Daeth tymor Wendy Pilmer fel cadeirydd i ben ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2023, wedi iddi ymuno â'r Panel yn 2012, yn gyntaf fel aelod ac wedi hynny fel Cadeirydd. Hoffai Ofcom a'r Panel gofnodi eu diolch i Wendy am ei blynyddoedd o wasanaeth.